Gwybodaeth Ategol a Chanllawiau i Ymgeiswyr

YMDDIRIEDOLAETH IEUENCTID
HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE
YOUTH TRUST

Contents

3 Amdanom ni

4 Blaenoriaethau a meini prawf cyllido

7 Faint o gyllid sydd ar gael?

8 Canlyniadau

8 Cynaliadwyedd

9 Monitro ac Adrodd

10 Pwy all wneud cais?

10 Sut i wneud cais

11 Beth sy'n digwydd nesaf?

11 Telerau ac amodau

Amdanom Ni

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru yn 2009, gan ddwyn ynghyd Brif Swyddogion Heddlu De Cymru ac Awdurdod Heddlu De Cymru, Uchel Siryfion De, Gorllewin a Chanol Morgannwg a Chadeirydd annibynnol, ynghyd ag ymddiriedolwyr eraill o'r gymuned fasnachol.

Cafodd arian ei godi i ddechrau drwy ddigwyddiadau gala, nawdd a rhoddion. Yn 2013, gwahoddwyd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ymuno â'r Ymddiriedolaeth, (gan ddisodli Awdurdod yr Heddlu) ac mae wedi ychwanegu at gronfeydd yr Ymddiriedolaeth drwy fuddsoddi arian o gronfa Deddf Eiddo'r Heddlu. Cytunwyd bod angen i ffocws yr Ymddiriedolaeth fod yn llawer cliriach, gan ganolbwyntio ar feysydd lle cafwyd y lefelau uchaf o ymgysylltu negyddol â'r heddlu ac ar feithrin gwydnwch ymhlith pobl ifanc sy'n agored i niwed a'i Grŵp Cymheiriaid.

Dyfarnwyd y grantiau cyntaf yn 2011 ac, ers hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu gwerth mwy nag £80,000 mewn grantiau gyda'r nod o annog pobl ifanc i ymgymryd â gweithgareddau cadarnhaol, wrth geisio eu hannog i beidio â throseddu, ymddwyn m

- Cyfarpar ar gyfer clybiau ieuenctid a grwpiau chwaraeon
- Gweithgareddau i ddifyrru yn ystod gwyliau'r ysgol
- Gwasanaethau allgymorth ieuenctid a ddarperir ar y stryd
- Ymgysylltu drwy gerddoriaeth
- Prosiectau adfywio ardal ar raddfa fach
- Prosiectau i fynd i'r afael â materion penodol (ymddygiad gwrthgymdeithasol, dioddefwyr)

Yn ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynd ati i geisio sicrhau bod grantiau yn cael eu dosbarthu i brosiectau sy'n helpu pobl ifanc sy'n wynebu'r anfantais fwyaf o ran trosedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau ac amddifadedd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn eu bywydau.

MAE'R MDDIRIEDOLAETH

WEDI DARPARU GRANTIAU

ANTIAU GWERTH MWY

NAG £80,000

Ein Nod:

Sicrhau bod pobl ifanc yn Ne Cymru yn byw bywydau diogel, iach a boddhaus

Ein tri chanlyniad allweddol yw:

Dewisiadau bywyd mwy cadarnhaol

Cydberthnasau gwell

Llesiant meddwl a chorfforol gwell

Gallwch lawrlwytho'r fframwaith canlyniadau drwy fynd i www.south-wales.police.uk/cy/cartref/ > Amdanom Ni > Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru

Blaenoriaethau a meini prawf cyllido

Nod Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru yw sicrhau bod pobl ifanc sy'n byw yn ardal Heddlu De Cymru yn arwain bywydau diogel, iach a boddhaus ac nad ydynt yn troseddu, yn ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol nac yn camddefnyddio sylweddau.

Blaenoriaethau cyllido

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio blaenoriaethau grantiau sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 10 a 25 oed ac sy'n wynebu risg o fod o dan anfantais neu fod y canlynol yn effeithio arnynt:

- Tlodi neu amddifadedd
- Ynysu cymdeithasol
- Amgylchiadau ansefydlog neu heriol gartref (gan gynnwys y rhai mewn gofal preswyl neu ofal maeth neu blant sy'n 'derbyn gofal')
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Byw mewn cymunedau lle mae galw uchel ar amser yr heddlu o ganlyniad i, er enghraifft, drosedd ac anrhefn, camddefnyddio sylweddau a masnachu mewn cyffuriau, achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau casineb a/neu gydlyniant cymunedol gwael

Gellir hefyd roi blaenoriaeth i brosiectau a gweithgareddau sy'n cefnogi pobl ifanc lle nodwyd eu bod:

- Wedi ymddieithrio neu'n wynebu risg uchel o ymddieithrio rhag addysg, hyfforddiant, gwirfoddoli neu gyflogaeth
- Yn camddefnyddio alcohol neu sylwedd arall, yn ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol, yn troseddu neu mewn perthynas wael a allai arwain at droseddu

Cefnogi sefydliadau gyda grantiau er mwyn helpu pobl ifanc sy'n byw yn ardal Heddlu De Cymru i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus ac atal pobl ifanc rhag troseddu, ymddwyn mewn ffordd wrth gymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau

Rhif Elusen 1133057

Faint o gyllid sydd ar gael ac at ba ddibenion?

Gall grantiau amrywio o £500 i £10,000

Mae grantiau ar gael am hyd at flwyddyn

Gellir gofyn am gyllid ar gyfer costau prosiect uniongyrchol gan gynnwys:

- Prynu cyfarpar
- Costau staff
- Costau gwirfoddolwyr
- Costau prosiect megis llogi ystafell

Mae grantiau'n amrywio o £500 i £10,000

Gellir cyllido amrywiaeth eang o brosiectau a gweithgareddau, er enghraifft:

- Celf a cherddoriaeth
- Sgiliau cymdeithasol ac emosiynol
- Chwaraeon a gweithgareddau yn yr awyr agored
- Rhoi llais i bobl ifanc
- Sgiliau ymarferol
- Hyfforddiant ac addysg i atal troseddu

Er na all yr Ymddiriedolaeth Ieuenctid gyllido prosiectau na gweithgareddau sy'n para mwy na blwyddyn, efallai y gellir darparu cyllid i gynnal prosiect eto os yw naill ai: wedi'i gyllido gan ffynhonnell arall yn y gorffennol a'i fod wedi llwyddo ond nad yw'r cyllid gwreiddiol ar gael mwyach neu, os cydnabyddir bod angen ehangu prosiect i ardal newydd, neu dros gyfnod gwahanol o amser.

Ni fydd y ceisiadau canlynol yn gymwys:

- Cyllid craidd (costau rhedeg sefydliad)
- Costau yr eir iddynt cyn i'r grant gael ei gynnig
- Prosiectau neu weithgareddau sy'n hyrwyddo gweithgarwch gwleidyddol neu grefyddol
- Cyllid ar gyfer gwasanaethau statudol
- Cyllid ar gyfer prosiectau sydd wedi'u hanelu at dderbynwyr y tu allan i ystod oedran y gronfa

Fframwaith Canlyniadau

Lawrlwythwch drwy fynd i www.south-wales.police.uk/cy/cartref/ > Amdanom Ni > Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru

Astudiaeth Achos

Lawrlwythwch drwy fynd i www.south-wales.police.uk/cy/cartref/ > Amdanom Ni > Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru

Canlyniadau

Bydd yr Ymddiriedolaeth Ieuenctid yn cefnogi prosiectau neu weithgareddau sy'n helpu pobl ifanc i wneud newidiadau cadarnhaol i'w bywydau. Dylai grantiau gefnogi o leiaf un o'r canlyniadau canlynol:

Pobl ifanc yn gwneud dewisiadau bywyd mwy cadarnhaol

Pobl ifanc yn meithrin cydberthnasau gwell

Pobl ifanc yn mwynhau llesiant meddyliol a chorfforol gwell

I gael rhagor o fanylion ac enghreifftiau o ganlyniadau lefel is neu lefel ganolradd, ewch i'r Fframwaith Canlyniadau.

Cynaliadwyedd

Er mai dim ond cyllid byrdymor sydd ar gael, bydd ymddiriedolwyr yn chwilio am dystiolaeth o fuddiannau tymor hwy o dderbyn cyllid gan yr Ymddiriedolaeth Ieuenctid. Gall hyn gynnwys:

- Tystiolaeth o'r effaith gadarnhaol a pharhaol y mae ymgysylltu â'r prosiect yn ei chael ar bobl ifanc unigol (er enghraifft, o fathau tebyg o brosiectau a gynhaliwyd yn y gorffennol, ennill cymhwyster/cymwysterau neu gydnabyddiaeth arall o ymgysylltu)
- Darparu cyfarpar a gaiff ei ddefnyddio dros gyfnod hir o amser
- Sicrhau bod cyllid ar gael o ffynonellau eraill er mwyn cynnal neu ailadrodd yr un prosiect neu weithgaredd

Monitro ac adrodd

- Fel rhan o delerau ac amodau'r cyllid, bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus adrodd ar y gwahaniaeth y mae eu prosiect wedi'i wneud.
- Bydd pawb sy'n cael grant yn cwblhau adroddiad ysgrifenedig pan ddaw eu prosiect i ben, gan ddarparu gwybodaeth sy'n cynnwys manylion am y gweithgarwch dan sylw, y canlyniadau a gyflawnwyd, gwariant grant a dysgu.
- Gall rhai grantiau hefyd gael eu dewis i gael eu monitro ymhellach, er enghraifft os yw'r prosiect sy'n cael ei gyflawni o ddiddordeb arbennig neu gyfredol i'r Ymddiriedolaeth Ieuenctid. Gall hyn gynnwys cyfarfodydd, ymweliadau â'r prosiect a'r bobl ifanc, adborth gan yr heddlu ac asiantaethau partner gan gynnwys asiantaethau atgyfeirio.
- Bydd y gwaith monitro ac adrodd yn canolbwyntio ar ganlyniadau a gall gynnwys gwybodaeth megis astudiaethau achos, dyfyniadau, adborth ac arsylwadau gan bobl ifanc, staff a phartneriaid er mwyn dangos tystiolaeth o'r gwahaniaethau a wnaed a dod â nhw'n fyw.
- Darperir rhagor o wybodaeth a chyngor ar fonitro ac adrodd pan gaiff y grant ei ddyfarnu.

Rhowch wybod i ni sut y mae eich prosiect wedi gwneud wahaniaeth o ran cefnogi pobl ifanc

Gwnewch Gais Nawr ⇨

Pwy all wneud cais?

Gellir dyfarnu grantiau i sefydliadau nid er elw, a gall y rhain gynnwys:

- Elusennau cofrestredig
- Sefydliadau gwirfoddol neu grwpiau cymunedol
- Ysgolion (ond nid ar gyfer gweithgareddau prif ffrwd)
- Sefydliadau ffydd (ond nid er mwyn hyrwyddo eu ffydd)
- Cyrff cyhoeddus
- Asiantaethau statudol (ond nid ar gyfer gwasanaethau statudol)
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol

Gellir hefyd ddyfarnu grantiau i unigolion mewn amgylchiadau penodol.

Dim ond ar gyfer gwaith mewn cymunedau yn ardal Heddlu De Cymru y mae cymorth ar gael i grwpiau a sefydliadau.

Sut i wneud cais

Gellir gwneud ceisiadau ar-lein - **https://policeandcrimecommissioner forsouthwales.flexigrant.com**, neu drwy lawrlwytho ffurflen gais a'i hanfon dros e-bost neu drwy'r post. Gellir hefyd ofyn am gopïau caled o'r ffurflen gais a'r canllawiau drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Rhaid i bob cais gael ei gymeradwyo gan swyddog heddlu presennol neu aelod o staff Heddlu De Cymru. Os nad ydych yn siŵr pwy yw'r pwynt cyswllt cywir yn eich ardal, anfonwch e-bost neu ffoniwch i gael cyngor.

Os nad ydych yn gwneud cais ar-lein, dylid anfon ceisiadau sydd wedi'u cwblhau i'r cyfeiriad isod.

Er y gellir ystyried ceisiadau ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn annog cyflwyno ceisiadau yn unol â'r dyddiadau canlynol: 1 Ionawr, 1 Ebrill, 1 Gorffennaf, 1 Hydref gan fod hyn yn helpu i sicrhau y caiff ceisiadau eu hystyried yn brydlon fel rhan o'r patrwm arferol o gyfarfodydd ymddiriedolwyr.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud cais ymhell cyn dyddiad dechrau eich prosiect.

Gwybodaeth gyswllt

E-bost
SWPYouthTrust@south-wales.police.uk

Ffôn
01656 869366

Cyfeiriad
Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru, Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cewch gydnabyddiaeth ein bod wedi cael eich cais.

Caiff ceisiadau sy'n bodloni'r meini prawf ac sy'n llwyddiannus ar y cam sgrinio cychwynnol eu hystyried yng nghyfarfod nesaf yr Ymddiriedolwyr (os caiff ei gynnal o fewn pythefnos i gael y cais) neu, fel arall, gan yr is-bwyllgor grantiau.

Os bydd gwybodaeth ar goll o gais, neu os na fydd yn bodloni'r meini prawf, rhoddir gwybod i chi a chewch gyfle i adolygu'r cais a darparu'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen.

Nod yr Ymddiriedolaeth yw rhoi gwybod i ymgeiswyr p'un a yw eu ceisiadau'n llwyddiannus o fewn 4 wythnos i gael eu cais (ar yr amod ei fod wedi'i gwblhau'n foddhaol).

Telerau ac amodau

Anfonir llythyr at ymgeiswyr llwyddiannus yn nodi telerau ac amodau'r cyllid a gofynnir iddynt lofnodi a dychwelyd ffurflen Derbyn Grant.

Ni ddylai'r gwaith ddechrau nes bod y cyllid wedi'i gymeradwyo a'i ddyfarnu. Caiff grantiau o hyd at £5,000 eu talu mewn un gyfran ar ddechrau'r prosiect fel arfer. Bydd grantiau o fwy na £5,000 yn cael eu talu mewn rhandaliadau fel arfer.

Dylid ond defnyddio cyllid grant at y diben a'r gweithgaredd y cytunwyd arnynt ac ni ellir gwneud unrhyw newidiadau i'r defnydd o unrhyw arian grant heb ganiatâd ysgrifenedig gan yr Ymddiriedolaeth ymlaen llaw.

Mae gofyn i'r sawl sy'n derbyn grantiau ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar y prosiect neu'r gweithgaredd o fewn 4 wythnos i'r dyddiad dod i ben drwy gwblhau ffurflen werthuso a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth. Bydd angen cyflwyno adroddiadau interim ar gyfer prosiectau sy'n para mwy na chwe mis.

YMDDIRIEDOLAETH IEUENCTID
HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE
YOUTH TRUST

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

Rhif Elusen 1133057